Annwyl Cwsmer

**Gwasanaeth Allgymorth Gwesteiol Pen-maen**

**Ailagor Gwasanaeth**

Rydym yn falch o roi gwybod ichi y byddwn yn adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post i gymunedau Penllwyn, Pontllanfraith a Maes-y-Cwmmer.

Byddwn yn adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post fel Allgymorth a Gynhelir dros dro tra byddwn yn parhau i geisio datrysiad parhaol ac rydym yn falch iawn o ddweud wrthych y bydd y Postfeistr o Swyddfa Bost Penmaen yn cynnig y gwasanaeth Allgymorth a Gynhelir ar gyfer y cymunedau uchod.

Bwriedir dechrau'r gwasanaeth Allgymorth Gwesteiol ar gyfer Penllwyn a Phontllan-fraith ddydd Mawrth 24 Gorffennaf 2018 ac ar gyfer Maesycwmer ddydd Iau 26 Gorffennaf 2018.

Mae'r manylion llawn am y gwasanaethau newydd ar gael ar ddiwedd y llythyr hwn.

Gwyddom y bydd y gymuned leol yn ymuno â mi i groesawu'r newyddion da hwn ac yn gobeithio y byddwch chi a'n cwsmeriaid yn parhau i ddefnyddio'r gangen. Mae croeso ichi rannu'r wybodaeth hon â'r bobl hynny yn eich sefydliad sydd â diddordeb gweithredol yn y mater penodol hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y gwasanaeth newydd, byddwch cystal ag ysgrifennu ataf trwy'r Tîm Cyfathrebu ac Ymgynghori yn y cyfeiriad a nodir drosodd. Sylwch, os gwelwch yn dda, na fydd eich sylwadau yn cael eu cadw'n gyfrinachol oni fyddwch yn gofyn yn benodol i ni wneud hynny wrth nodi'n glir arnynt: "Yn Gyfrinachol/In Confidence".

Rydym yn gwneud hyn yn unol â'n Cod Ymarfer. Mae rhagor o wybodaeth am y Cod ar ddiwedd y llythyr hwn. Hoffwn ddiolch i chi am fod mor amyneddgar.

Gobeithiwn y byddwch chi a'n cwsmeriaid yn cefnogi'ch gwasanaeth Swyddfa'r Post.

Yr eiddoch yn gywir

*Gareth Shylon*

**Gareth Shylon**
**Rheolwr Ardal dros Newidiadau i'r Rhwydwaith**

**Sut i gysylltu â ni:**

comments@postoffice.co.uk

FREEPOST Your Comments

www.postofficeviews.co.uk

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu Braille, byddwch cystal â chysylltu â'r Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03452 66 01 15 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.**

Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig wedi ymrwymo i ddiogelu eich preifatrwydd, ac mae gwybodaeth ynghylch sut i wneud hyn ar ein gwefan yn www.postoffice.co.uk/privacy

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ.
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa'r Post Cyfyngedig

PostOffice.co.uk

Cafodd y broses gyfathrebu hon ei chytuno â chorff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr, sef y Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth yr Alban ym Mhrydain, a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n cael ei gweithredu yn unol â'n Cod Ymarfer ar gyfer newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post, a gytunwyd â nhw. Os hoffech gael copïau o'r Cod, maent ar gael mewn canghennau, neu wrth gysylltu â ni neu wrth ymweld â'n gwefan yn: postofficeviews.co.uk. Os ydych o'r farn nad ydym wedi dilyn y broses yn gywir ac yn dymuno gwneud cwyn, byddwch cystal ag anfon llythyr neu ebost atom wrth ddefnyddio'r manylion cyswllt yn ein posteri a llythyrau ac esbonio pam. Byddwn yn archwilio eich cwyn ac yn rhoi ateb i chi cyn gynted â phosibl. Byddwn yn rhoi'r mannau cyswllt perthnasol ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr i chi. Felly, os ydych yn dal yn anfodlon ar ôl derbyn ein hymateb, gallwch ofyn iddynt am eu cymorth.

**Manylion am y gwasanaeth Allgymorth Gwesteiol newydd:**

**Swyddfa Bost Penllwyn**
Premier Stores
27 Fleur De Lys Avenue
Penllwyn
Coed-duon
NP12 2EN

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| **Mawrth** | **09:15 – 11:15** |
| **Iau** | **09:00 – 11:00** |

**Gwasanaethau**
Bydd dewis eang o wasanaethau ar gael o hyd.
Gall cwsmeriaid ddal i gasglu budd-daliadau mewn arian parod trwy ddefnyddio ein gwasanaethau bancio beunyddiol neu gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post.

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae'r mynediad ar hyd ramp o'r palmant neu risiau a thrwy ddrws llydan wrth y fynedfa. Bydd dolen glyw y tu mewn.

**Trafnidiaeth/parcio**
Mae modd parcio ar yr heol y tu allan i Premier Stores a gerllaw.

**Llwybr**
Yn yr un adeilad Swyddfa'r Post y tu mewn i Premier Stores ar Fleur De Lys Avenue.

**Manylion am y gwasanaeth Allgymorth Gwesteiol newydd:**

**Swyddfa Bost Pontllan-fraith**
Capel Elim
Newbridge Road
Pontllan-fraith
Coed-duon
NP12 2LB

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| **Mawrth** | **11:30 – 13:30** |
| **Iau** | **13:30 – 15:30** |

**Gwasanaethau**
Bydd yr un dewis eang o wasanaethau ar gael o hyd.
Gall cwsmeriaid ddal i gasglu budd-daliadau mewn arian parod trwy ddefnyddio ein gwasanaethau bancio beunyddiol neu gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post.

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae'r mynediad yn wastad gyda drws llydan a chanllawiau wrth y fynedfa. Y tu mewn, bydd yna ddolen glyw a lle i gadair olwyn.

**Trafnidiaeth/parcio**
Mae modd parcio ym maes parcio Capel Elim.
Mae bysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

**Llwybr**
Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 250 metr o'r gangen flaenorol, ar hyd tir amrywiol ei natur.

**Manylion am y gwasanaeth Allgymorth Gwesteiol newydd:**

**Swyddfa Bost Maesycwmer**
Canolfan Gymuned Maesycwmer
The Crescent
Maesycwmer
Yr Hengoed
CF82 7QF

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| **Iau** | **11:15 – 13:15** |

**Gwasanaethau**
Bydd yr un dewis eang o wasanaethau ar gael o hyd.
Gall cwsmeriaid ddal i gasglu budd-daliadau mewn arian parod trwy ddefnyddio ein gwasanaethau bancio beunyddiol neu gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post.

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae'r mynediad yn wastad gyda drws llydan wrth y fynedfa. Y tu mewn, bydd yna ddolen glyw a lle i gadair olwyn.

**Trafnidiaeth/parcio**
Mae modd parcio ym maes parcio Canolfan Gymuned Maesycwmer. Mae bysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

**Llwybr**
Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 550 metr o'r gangen flaenorol, ar hyd tir amrywiol ei natur.